025

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Williamston**

**Cartref Nyrsio Williamston**
**Houghton**
**Aberdaugleddau**
**SA73 1NL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/01/2025

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Nyrsio Williamston

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Williamston Nursing Home LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 09 Chwefror 2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth gan dîm o weithwyr sy'n cael eu harwain gan reolwr ac arweinydd clinigol uchel eu parch. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn treulio amser yno yn ymgysylltu â'r bobl a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn gwella, gwnaed buddsoddiadau sylweddol yn yr amgylchedd ffisegol, ac mae gan y darparwr ymwybyddiaeth dda o'r gwaith sydd i'w wneud. Mae hwn yn faes i'w wella o hyd. Mae'r gweithwyr gofal yn uchel eu cymhelliant ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn gallu codi unrhyw syniadau neu bryderon sydd ganddynt, a'u prif nod yw gwella ansawdd i'r bobl sydd wedi gwneud Williamston yn gartref iddynt.

Mae gan y bobl a'u perthnasau lefel uchel o hyder yn y gwasanaeth ac maent yn teimlo eu bod wedi gwneud penderfyniad da wrth symud yno. Mae'r rhan fwyaf o'r perthnasau yn canmol y gofal y mae'r bobl yn ei gael yn fawr ac mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y cofnodion gofal, ac o ran hyfforddi a goruchwylio'r gweithwyr gofal.

## Llesiant

Mae'r darparwr yn cymryd camau i sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud os byddant yn amau bod unigolyn yn wynebu risg ac maent yn hyderus y byddai eu rheolwr yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu mewn ffordd briodol. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am eu cyfrifoldebau.

Bydd gwelliannau parhaus i'r amgylchedd ffisegol yn helpu i wella llesiant y bobl. Mae rhai newidiadau eisoes wedi'u gwneud ac mae mwy yn yr arfaeth. Mae'r darparwr yn ymwybodol o'r gwaith sydd ei angen ac mae'r bobl, y rhai sy'n bwysig iddynt a'r staff yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed hyd yma.

Mae'r cydberthnasau rhwng y bobl a'r rheini sy'n gofalu amdanynt yn dda. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac er bod proffil personol ar gael i rai o'r bobl, nid oes proffil o'r fath ar gael i bawb y gallai fod o fudd iddynt. Bydd y bwriad i gyflwyno proffil personol i bob unigolyn yn gwella'r wybodaeth sydd gan y gweithwyr gofal. Mae'r rhyngweithio yn garedig ac yn gyfeillgar ac yn dangos bod cydberthnasau wedi cael eu meithrin.

Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r staff a'r perthnasau yn dweud bod y gwasanaeth yn gwella ac maent yn gwerthfawrogi'r buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â hyfforddiant ac i greu swydd arweinydd clinigol i gefnogi'r tîm.

Bydd y bwriad i benodi gweithiwr gweithgareddau yn gwella llesiant y bobl ymhellach gan nad yw'r gweithwyr gofal yn gallu ymrwymo i raglen gynhwysfawr o gyfleoedd i rai o'r bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt ar hyn o bryd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a gânt yn Williamston. Ceir cyfeillgarwch naturiol a hamddenol rhwng y bobl a'r rhai sy'n gofalu amdanynt, a gwelsom enghreifftiau o sgyrsiau llawn hiwmor sy'n dangos bod cydberthnasau llawn ymddiriedaeth wedi'u meithrin. Mae'r perthnasau yn dangos eu gwerthfawrogiad yn y cardiau y maent yn eu hanfon. Roedd un perthynas wedi ysgrifennu, "*We would like to thank all the staff for the wonderful care for our Mum… the kindness shown by every member of staff made your nursing home feel like a family home which is so important"* ac ysgrifennodd un arall "*thank you so much for all the love Mum received over the years at Williamston".* Mae hyn yn adlewyrchu'r geiriau caredig y mae'r bobl yn eu defnyddio wrth ddisgrifio'r staff, gan gynnwys un unigolyn a ddywedodd *"they look after me very well"* ac un arall "*I am definitely well looked after".* Mae rhai o'r perthnasau yn meddwl bod y gwasanaeth yn gwella ond mae eraill yn teimlo bod pethau yn gwaethygu, gan sôn am ddiffyg sylw at fanylder a rhai o'r diffygion roeddent wedi sylwi arnynt o ran agweddau ar y gofal.

Mae'r cofnodion gofal yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac mae'r cynlluniau gofal diwygiedig yn gynhwysfawr, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn helpu i lywio'r gofal. Mae yna gynlluniau gofal a chymorth ac asesiadau risg ar gyfer amrywiaeth o feysydd ac maent yn ddefnyddiol i'r gweithwyr gofal ac mae ganddynt amser i'w darllen. Caiff y cynlluniau gofal eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff cofnodion dyddiol eu cadw ond nid ydynt bob amser yn rhoi cofnod cywir gan nad yw deiet a hylifau rhai o'r bobl yn cael eu cofnodi'n gyson. Mae darparwr y gwasanaeth wedi cytuno i adolygu'r trefniadau hyn ac i sicrhau bod y nodiadau yn gyflawn ac yn gywir.

Mae'r gwasanaeth yn deall pwysigrwydd maeth da. Mae staff arlwyo ychwanegol wedi cael eu penodi sy'n ymfalchïo yn eu gwaith a chaiff prydau eu gwneud â chynhwysion ffres. Prin iawn yw'r bwydydd wedi'u prosesu a ddefnyddir. Ceir dewis o brif bryd ac os bydd y bobl yn gofyn am rywbeth gwahanol, yna caiff eu ceisiadau eu bodloni cyn belled ag y bo'n bosibl. Mae gan y tîm arlwyo wybodaeth dda am hoff bethau a chas bethau'r bobl. Ceir stoc dda o fwyd a gall y bobl gael bwyd y tu allan i amseroedd prydau os byddant am wneud hynny. Mae'r fwydlen yn amrywiol ac rydym wedi gofyn i'r darparwr ystyried cyflwyno'r fwydlen i'r bobl ar ffurf ddarluniadol i'w helpu i wneud dewisiadau. Darperir ar gyfer deietau arbennig, a chaiff digwyddiadau arbennig eu dathlu. Soniodd perthynas am y bwyd mewn ffordd gadarnhaol, gan ddweud ei fod yn falch iawn bod ei berthynas wedi magu pwysau ers symud i'r gwasanaeth a dywedodd un arall bod y prydau *"smell beautiful".* Fodd bynnag, mae un perthynas o'r farn bod angen rhoi mwy o sylw i sicrhau bod y bobl yn cael digon i'w yfed.

Caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu. Mae nyrs gofrestredig bob amser ar ddyletswydd ac yn rhoi cyngor i'r gweithwyr gofal. Mae'r nyrsys ardal a'r nyrsys diabetig yn ymweld yn rheolaidd. Soniodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref yn gadarnhaol am y gwasanaeth, gan nodi bod y tîm o staff yn barod i dderbyn unrhyw gyngor

a chyfarwyddiadau ynghylch gofal. Mae digon o gyfarpar codi a chario yn ogystal â gwelyau proffilio arbenigol i'r bobl y nodwyd bod risg y byddant yn datblygu briwiau pwyso. Rhaid i'r gweithwyr gofal sicrhau bod unrhyw gyfarpar lleddfu pwysedd yn cael ei ddefnyddio cyn gynted â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod sut i adnabod yr arwyddion sy'n gysylltiedig â niwed o ganlyniad i friwiau pwyso ar y croen ac yn gwybod pwy y dylid rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon.

Mae'r gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth yn ddiogel, a chaiff eu cymhwysedd ei asesu cyn iddynt gwblhau'r dasg hon. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel mewn cypyrddau wedi'u cloi. Mae optegydd yn ymweld â'r gwasanaeth er mwyn cynnig gwiriadau llygaid i'r bobl ac mae podiatrydd yn ymweld yn rheolaidd. Caiff arsylwadau corfforol eu cynnal yn rheolaidd a chaiff y bobl eu pwyso'n rheolaidd, ac mae'r arweinydd clinigol yn ychwanegu gwiriadau tymheredd at y prosesau monitro cyffredinol yn dilyn pryder a godwyd yn ddiweddar. Mae cynlluniau ar waith i roi hyfforddiant ar rai cyflyrau iechyd corfforol er mwyn sicrhau y gall y gweithwyr gofal nodi'n well pan fydd y bobl yn mynd yn sâl. Mae'r rhan fwyaf o'r perthnasau yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng ngofal y bobl a gwnaethant ddweud eu bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

Mae'r bobl yn cael rhai cyfleoedd i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae un unigolyn yn mwynhau treulio amser yn ei ystafell yn gwneud teganau y mae'n hoffi eu rhoi i unigolion eraill. Mae eraill yn treulio amser allan o'r gwasanaeth gyda theulu a ffrindiau. Fodd bynnag, mae swydd y gweithiwr gweithgareddau yn wag ar hyn o bryd, a gwneir ymdrechion i recriwtio unigolyn i'r rôl hon. Mae'r gweithwyr gofal yn gwneud cymaint ag y gallant ond nid oes amserlen o weithgareddau neu gyfleoedd ar hyn o bryd i ymgysylltu â'r bobl naill ai'n unigol neu mewn grwpiau.

Mae digon o amser gan y gweithwyr gofal i helpu'r bobl. Gan fod y gweithwyr gofal yn gallu dibynnu ar eu cydweithwyr ac o'r farn eu bod yn gweithio'n effeithiol fel tîm, gallant dreulio amser yn helpu'r bobl gyda'u gofal personol heb orfod rhuthro.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth y mae angen ei wella ymhellach. Yn ddiweddar, mae'r fynedfa, yr ystafell fwyta a'r prif gyntedd wedi cael eu hailaddurno ac mae rhai carpedi newydd wedi cael eu gosod. Mae cynlluniau ar waith i osod mwy o loriau newydd ac i barhau â'r rhaglen ailaddurno, a bydd dau foeler newydd yn cael eu gosod yn fuan. Mae rhai o'r carpedi wedi treulio ac yn peri risg o faglu.

Hen blasty mawr yw'r eiddo, ac mae wedi cadw rhai nodweddion gwreiddiol a deniadol. Mae'r bobl wedi personoli eu hystafelloedd â ffotograffau, ornamentau a llenni a deunyddiau. Mae gan rai o'r ystafelloedd gwely ffenestri mawr sy'n golygu bod yr ystafelloedd yn olau ac yn agored. Mae lle i gadair yn yr ystafelloedd gwely sy'n golygu bod y bobl yn gallu ymlacio yn eu hystafelloedd os byddant am wneud hynny.

Mae angen mwy o sylw i fanylder ym mhob rhan o'r adeilad gan nad oes cysgodlen ar rai o'r goleuadau ac nad yw rhai o'r llenni wedi'u hongian yn iawn neu maent yn denau. O ganlyniad, nid ydynt yn atal y golau rhag treiddio drwyddynt, a fyddai'n helpu'r bobl i gael noson dda o gwsg.

Mae'r safonau glendid yn dda ym mhob rhan o'r adeilad, ac, ar y cyfan, nid oes arogleuon gwael. Mae angen ymgymryd â gwaith tynnu llwch ar lefelau uchel er mwyn cael gwared ar weoedd pryfed cop. Mae nifer y staff cadw tŷ wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf.

Mae ardaloedd o leithder a llwydni i'w gweld o hyd mewn rhannau o'r gwasanaeth, y tu mewn a'r tu allan; mae'r cafnau ac un o'r draeniau wedi'u blocio ac ni chafodd gwaith i atgyweirio ystafell gawod ei gwblhau, sy'n golygu bod pwll mawr o ddŵr bob tro y caiff y gawod ei defnyddio y mae'n rhaid i'r gweithwyr gofal ei sychu. Mae perygl y bydd y bobl a'r staff yn llithro o ganlyniad. Ymatebodd y darparwr i'n pryderon yn hyn o beth, gan nodi na fyddai'r ystafell yn cael ei defnyddio hyd nes y byddai'r gwaith adnewyddu wedi cael ei gynnal.

Mae'r cartref wedi'i leoli o fewn ardal helaeth o dir ac mae cynlluniau ar y gweill i wella'r gerddi er mwyn i'r bobl eu defnyddio'n amlach pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mae angen ystyried gwneud gwaith i'r dramwyfa gan fod yna dyllau mawr, ond mae digon o leoedd parcio ceir i ymwelwyr ac i'r staff.

Mae prosesau ar waith i sicrhau y caiff unrhyw gyfarpar a gwasanaethau eu gwirio'n rheolaidd. Mae gan y gweithiwr cynnal a chadw ddealltwriaeth dda o anghenion y gwasanaeth ac mae'n cynnal amrywiaeth o wiriadau gweledol bob dydd, ac yn cadw cofnodion i ddangos y caiff gwiriadau o'r cyfarpar diogelwch tân, y clychau galw, y gwelyau a'r cyfarpar arall eu cynnal yn rheolaidd ac y caiff tymheredd y dŵr ei fonitro'n rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn parhau i fod yn faes i'w wella, ac mae angen i'r darparwr weithredu. Caiff hyn ei ystyried yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth ac yn ymweld yn rheolaidd. Mae'r rheolwr yn ei ddisgrifio fel unigolyn cefnogol sy'n barod i dderbyn syniadau a phryderon. Mae'r adroddiadau sy'n cael eu hysgrifennu wedi'u llunio'n dda ac yn dangos ei fod yn gofyn am safbwyntiau'r bobl a'r staff.

Bu newidiadau i arweinyddiaeth y gwasanaeth ac mae'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod pethau'n gwella. Mae un yn disgrifio'r awyrgylch fel *"100% better",* dywedodd un arall, *"things are absolutely better, staff morale is greatly improved"* a dywedodd un arall, "*This is the best place I have worked… we have a very good team".* Ym mhob rhan o'r gwasanaeth, roedd yr awyrgylch yn hamddenol ac yn ymddangos yn drefnus.

Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos bod y gweithwyr yn cael hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys gofal dementia; atal a rheoli heintiau; cymorth cyntaf a diogelwch tân. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos er bod cryn dipyn o'r hyfforddiant yn gyfredol, fod rhai bylchau a hynny naill ai gan nad yw'r gweithwyr gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol, neu lle mae angen ei ddiweddaru. Yn ddiweddar, cafodd system hyfforddiant ar-lein newydd ei phrynu a chaiff ei hategu gan hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae gan yr arweinydd clinigol ddealltwriaeth dda o anghenion hyfforddiant y gwasanaeth ac mae'n ystyried pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen.

Caiff gweithwyr gofal eu penodi gan ddilyn proses recriwtio ddiogel a chadarn. Mae'r ffeiliau yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen, gan gynnwys geirdaon, hanes cyflogaeth a lluniau adnabod. Caiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau a'u storio'n electronig.

Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo y gallant godi unrhyw syniadau ac maent yn hyderus y byddant yn cael ymateb amserol a defnyddiol. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd sesiynau goruchwylio yn cael eu cynnal yn unol â'r terfynau amser gofynnol. Yn ystod yr arolygiad hwn, roedd rhai gwelliannau wedi'u gwneud ond mae rhai bylchau yn y matrics o hyd. Fodd bynnag, dywedodd y gweithwyr gofal eu bod yn cael adborth cytbwys ar eu gwaith a bod cydweithwyr ar lefel uwch ar gael i drafod unrhyw faterion â nhw ar unrhyw adeg.

Caiff amrywiaeth o archwiliadau eu cwblhau i fonitro ansawdd, ac mae'r rhai sydd wedi'u cwblhau yn dangos lefelau cydymffurfio uchel. Roeddent yn cynnwys archwiliadau o gynlluniau gofal; drysau tân; y gegin a damweiniau a digwyddiadau. Caiff y darparwr ei annog i ystyried sut y caiff ansawdd y gofal ei fonitro mewn ffordd reolaidd a pharhaus gan fod rhai bylchau yn yr amserlen.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Y tu allan, mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio ar rannau o'r eiddo. Mae'r gwaith paent wedi colli ei liw. Mae draen wedi'i flocio sy'n golygu bod y dŵr yn llifo dros y concrit. Mae tyllau mawr yn y dramwyfa. Mae angen atgyweirio a glanhau rhai o'r ffenestri. Y tu fewn, nid yw un o'r draeniau yn un o'r cawodydd yn gweithio'n iawn, sy'n golygu bod dŵr yn cronni yng ngwaelod y gawod a bod yn rhaid i'r staff ei ysgubo â llaw i mewn i'r draen. Mae marciau gwael ar y waliau a'r gwaith pren. Mae rhai o'r gosodiadau a'r ffitiadau naill ai ar goll neu mae angen rhai newydd. Mae olion traul ar y dillad gwely a'r dodrefn. Mae rhaglen wedi'i chynllunio o waith cynnal a chadw wrthi'n cael ei llunio ar hyn o bryd ac mae'r darparwr yn cydnabod ei gyfrifoldeb i atgyweirio'r adeilad a'i adfer i'r cyflwr gorau posibl. | Heb Gyflawni |
| 6 | Ni chaiff sesiynau goruchwylio eu cynnal yn unol â'r rheoliadau. Mae bylchau yn y matrics hyfforddiant sydd naill ai'n dangos nad yw rhai o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant, neu nad yw eu hyfforddiant yn gyfredol. Mae bylchau yn y cofnodion ar gyfer gwiriadau diogelwch, a dywedodd y gweithiwr cynnal a chadw nad yw wedi cwblhau'r holl wiriadau diweddaraf gan ei fod wedi bod yn gweithio yn y gegin. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/03/2025